



GWYLIAU STAFF

(Mae'r trefniadau isod yn berthnasol i holl staff CYNNAL)

1. Mae'r flwyddyn gwyliau yn ymestyn o **1 Ebrill hyd at 31 Mawrth**, a disgwylir i staff gymryd eu gwyliau yn ystod y cyfnod yma.
2. Yn amodol i ganiatâd eu Rheolwr Llinell, gall staff gyflwyno cais i drosglwyddo **hyd at 5 diwrnod** o un flwyddyn gwyliau i'r llall. Gellir cymryd y dyddiau yma unrhyw adeg yn yn ystod y flwyddyn wyliau ganlynol; fel arall, byddant yn hepgor yr hawl i'r dyddiau a drosglwyddir. Bydd angen cyflwyno'r cais i drosglwyddo ar ffurflen benodol, yn nodi pa bryd y bwriedir cymryd y dyddiau a drosglwyddir. Pwysleisir nad yw'n hawl awtomatig i drosglwyddo dyddiau o un flwyddyn wyliau i'r llall - ni ddylid cymryd yn ganiatâol bod y trefniant am fod yn dderbyniol.

Pe bai unigolyn ar absenoldeb salwch tymor hir, neu ar absenoldeb mamolaeth a.y.y.b., gellir cynyddu'r nifer dyddiau yn yr achosion yma.
3. Gofynnir am gydweithrediad staff i 'reoli' pryd maent yn cymryd gwyliau, ac nad ydynt yn cadw gormod o wyliau tuag at diwedd y flwyddyn. Gall achosion o'r fath roi pwysau ychwanegol ar gydweithwyr sy'n cyflenwi drostynt, ar gyfnodau o brysurdeb a phwysau gwaith.
4. Mae gan bob aelod o staff a gyflogir dan bwynt cyflog 22 (sef Graddfeydd 1-4) hawl i **21 diwrnod** o wyliau blynyddol. Ychwanegir **4 diwrnod** at y cyfanswm hwn ar ôl 5 mlynedd o wasanaeth di-dor. Cyfrifir yr hawl i'r dyddiau ychwanegol o 'ben-blwydd' y dyddiad dechrau, ac fe'i cyfrifir yn pro-rata (ar sail misoedd cyflawn) am weddill y flwyddyn wyliau.
5. Mae gan bob aelod o staff a gyflogir ar bwynt 22 neu uwch (sef Graddfa 5 ac uwch), neu Staff Soulbury, hawl i **23 diwrnod** o wyliau blynyddol. Ar ôl 5 mlynedd o wasanaeth di-dor, ychwanegir **5 diwrnod** at y cyfanswm hwn. Cyfrifir yr hawl i'r dyddiau ychwanegol o 'ben-blwydd' y dyddiad dechrau, ac fe'i cyfrifir yn pro-rata (ar sail misoedd cyflawn) am weddill y flwyddyn wyliau.
6. Yn ychwanegol i'w gwyliau blynyddol, mae hawl gan bob aelod o staff i 2 ddiwrnod o wyliau achlysurol. Gan y bydd swyddfeydd CYNNAL ar gau dros gyfnod y Nadolig, cymerir y ddau ddiwrnod achlysurol yn ystod y cyfnod yma. Tra pery'r trefniant hwn, caniateir diwrnod ychwanegol o wyliau i'r staff fel bod y swyddfeydd ar gau yn gyfangwbl rhwng y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd.
7. Yn ôl y Canllawiau Cenedlaethol, ni chaniateir i staff gymryd gwyliau blynyddol cyn iddynt gwblhau chwe mis o wasanaeth di-dor. Mae'n bosibl cael trefniadau lleol sy'n caniatáu i staff gymryd gwyliau yn ystod eu 6 mis cyntaf o wasanaeth, ac fe ddylai'r aelod o staff drafod y sefyllfa gyda'i R(h)eolwr Llinell.
8. Bydd gan staff sy'n gadael cyflogaeth y Cwmni hawl i 1/12 o'u gwyliau blynyddol am bob mis cyfan o wasanaeth gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn wyliau gyfredol.
9. Gan bod CYNNAL yn darparu cefnogaeth uniongyrchol i ysgolion, gofynnir am gydweithrediad staff i gymryd y mwyafrif o'u gwyliau blynyddol yn ystod cyfnodau o wyliau ysgol. Mabwysiadwyd y trefniant canlynol fel canllaw ar gyfer ystyried ceisiadau gan staff am wyliau –

cyfnod hyd at 5 diwrnod o wyliau yn ystod tymor ysgol

derbyniol, os yw pwysau gwaith yr uned/unigolyn yn caniatáu hynny.

cyfnod rhwng 6 - 10 diwrnod o wyliau yn ystod tymor ysgol

i'w drafod yn gyntaf gyda'r Rheolwr Llinell, gan ystyried prysurdeb gwaith, amseriad y gwyliau, presenoldeb cydweithwyr ...

cyfnod mwy na 10 diwrnod o wyliau yn ystod tymor ysgol

i'w drafod gyda'r Rheolwr Llinell, gan roi ystyriaeth i'r pwyntiau uchod a'r rhesymau dros y cais, ond mae'r cais yn anhebygol o gael ei ganiatáu onibai bod rhesymau eithriadol dros amseriad y gwyliau.

Pan mae staff yn cymryd gwyliau o'u gwaith, dylai hynny fod mewn unedau o ddyddiau cyfan neu hanner dyddiau.